# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Grŵp Cyn-ysgol Dôlafon**

**Ysgol Dôlafon**
**Ffordd Dôl-y-Coed**
**Llanwrtyd**
**LD5 4RA**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Gwener, 24 Mai 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhelir Grŵp Cyn-ysgol Dôlafon Ducklings ar safle Ysgol Dôlafon. Cyngor Sir Powys yw'r darparwr cofrestredig a'r pennaeth, Gillian Lloyd, yw'r unigolyn cyfrifol. Y person â chyfrifoldeb, Margaret Voss, sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth o ddydd i ddydd. Mae'r grŵp cyn-ysgol yn gweithredu o'i ystafell ddosbarth ei hun a gall ddefnyddio'r ardal chwarae awyr agored gwbl amgaeedig. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o 8:45am i 11:30am, dydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor yn unig. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 12 o blant o 3 i 5 mlwydd oed. Mae lleoedd wedi'u hariannu ar gael i blant fel rhan o Hawl Bore Oes y Llywodraeth. Saesneg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac nid yw'r gwasanaeth yn darparu'r 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, caiff lefel dda o eiriau ac ymadroddion Cymraeg achlysurol ei hyrwyddo'n dda iawn.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn ffynnu ac yn datblygu'n dda iawn; rhoddir pwyslais ar eu lles a'u llesiant, sydd wrth wraidd y gwasanaeth hwn. Mae'r plant wedi setlo, yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu mewn amgylchedd sy'n ysgogol, yn ddiddorol, yn gynnes ac yn gyfeillgar i blant. Mae'r plant yn derbyn gofal gan staff sy'n ymateb yn effeithiol ac yn briodol i'w hanghenion unigol, ac sy'n canolbwyntio'n glir ar hybu datblygiad cyfannol y plant. Mae'r plant yn mwynhau dysgu drwy weithgareddau cydlynol sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, sydd â'r nod o ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Mae'r staff yn gymwys iawn ac yn hynod brofiadol. Gwnaethant ddangos bod ganddynt wybodaeth ragorol o'r ffordd y mae plant yn dysgu ac yn tyfu. Maent yn darparu amrywiaeth o weithgareddau addysgol cyfoethog, amrywiol a dychmygus, gydag asesu a chynllunio manwl ar gyfer plant unigol sy'n sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd rhagorol wrth ddysgu. Mae'r amgylchedd yn wych, gan gynnig adnoddau a lleoedd o ansawdd da lle maent wedi'u hysbrydoli i chwarae a dysgu. Mae'r arweinyddiaeth yn arbennig o effeithiol. Caiff y staff eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu'u sgiliau a'u profiad a cheir partneriaethau da iawn â'r rhieni, y gymuned leol a gweithwyr gofal plant proffesiynol eraill.

## 2. Gwelliannau

Dim

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom ambell argymhelliad a chaiff y rhain eu disgrifio'n fanwl ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf ac mae'r staff yn gwrando ar eu hanghenion a'u dewisiadau. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus gyda'r staff. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn hyderus i symud o gwmpas yn rhydd. Mae'r plant wedi meithrin cyfeillgarwch ac mae ganddynt gydberthnasau cynnes ac addfwyn gyda'u gofalwyr. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn hyderus i gyfathrebu'n effeithiol; mae rhai o'r plant yn ddigon hyderus i ofyn cwestiynau a herio ymatebion. Mae'r plant i gyd yn deall neu'n dechrau deall pwysigrwydd rhannu, aros eu tro, aros a chydweithio. Maent yn hynod egnïol; gan gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu sy'n seiliedig ar chwarae ysgogol a bywiog, ac maent yn llywio arferion dyddiol sylfaenol fel amser byrbryd. Mae'r plant yn ffynnu ac yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda iawn yn yr amgylchedd gofal plant hwn.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau ac yn gyfathrebwyr hyderus.

Roedd y plant yn lleisio'u barn am yr hyn roeddent yn ei wneud neu'n dymuno'i wneud yn frwd. Er enghraifft, roedd y plant yn defnyddio toes chwarae, ac yn dewis gwneud selsigen hir neu selsigen fer. Dywedodd rhai o'r plant eu bod am wneud pizza. Gwelsom fod y plant yn 'hunangofrestru' wrth gyrraedd, gan ysgrifennu eu henwau ar y gofrestr a dewis sticer i gyd-fynd â'u hymdrechion i ysgrifennu eu henwau. Roedd y plant yn gyfforddus wrth ddod at y staff ac atom ni i ddangos i ni beth roeddent wedi'i wneud. Yn ystod amser cylch, roedd y plant wrth eu bodd yn canu caneuon a gwnaethant sgwrsio yn llawn cyffro am yr hyn roeddent yn bwriadu'i wneud am weddill y bore. Roedd y plant yn ymuno mewn sgyrsiau am y tywydd. Yn ystod amser byrbryd, gwelsom fod y plant yn cymryd rhan yn llawn. Gwelsom y plant yn sychu'r bwrdd i baratoi ar gyfer amser byrbryd. Gan ddilyn rota, aeth un plentyn â throli siopa bach i nôl y cartonau llaeth o ystafell y staff a'u helpu i ddosbarthu i'r plant eraill. Arllwysodd y plant eu diodydd eu hunain ac arllwys eu llaeth dros y grawnfwyd roeddent wedi'i ddewis. Yn ogystal, cawsant ddewis a oeddent am yfed eu llaeth neu fynd â'r llaeth adref gyda nhw i'w yfed yn nes ymlaen. Gwelsom fod y plant yn helpu i roi pethau i gadw ar ddiwedd amser byrbryd. Clywsom y plant yn siarad am eu brodyr a'u chwiorydd ac

aelodau eraill o'u teulu, a'r hyn roeddent yn mynd i'w wneud ar ôl iddynt orffen bwyta. Clywsom y plant yn gofyn cwestiynau ac yn ceisio help yn ôl yr angen, er enghraifft wrth ddefnyddio'r cyfrifiadur i arbed a storio eu gwaith.

Gall y plant wneud penderfyniadau am beth i'w wneud, maent yn mynegi'u hunain yn hyderus ac maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r safle plant yn ddiogel ac yn hapus. Maent yn gyfarwydd â'u hamgylchedd.

Roedd y plant yn hyderus iawn yn eu harferion dyddiol ac roeddent yn dangos eu bod yn deall y gweithdrefnau a oedd ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel. Er enghraifft, wrth gario eitemau chwarae i'r bwrdd, gwnaethant atgoffa'u hunain 'not to run'. Gwelsom y plant yn hunangofrestru wrth gyrraedd; gwnaethant ysgrifennu eu henwau a rhoi sticeri wrth ymyl eu henwau ar y daflen gofrestru, gan ddatgan 'I am here'. Gwelsom fod y plant yn rhydd i allu symud o un gweithgaredd i'r llall ac roedd y plant yn defnyddio'r lle yn effeithiol. Roeddent yn ymwybodol beth oedd yn digwydd pan ddaethant at ei gilydd ar gyfer amser cylch, gan weiddi 'I am ready'. Pan oedd yn amser mynd adref, gwelsom er enghraifft eu bod wedi casglu eu bagiau a'u bod yn ymwybodol ei bod yn 'amser mynd adref'. Dangosodd hyn i ni fod gan y plant ymdeimlad cryf o fod yn ddiogel. Roedd y plant yn mynd at y staff yn eiddgar ac roedd yn amlwg iawn bod y plant wedi meithrin cydberthnasau cadarn llawn ymddiriedaeth â'r oedolion a oedd yn gofalu amdanynt.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn, yn hapus, wedi ymlacio a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad gofal plant hwn.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn dysgu sut i rannu, bod yn garedig ac aros eu tro.

Roedd y plant yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod ein hymweliadau. Gwnaethant ddangos eu bod yn ystyriol o eraill. Er enghraifft, ar un adeg pan oedd y plant yn chwarae gyda'r toes chwarae, clywyd y plant yn gofyn 'do you want some of mine?'. Clywsom y plant yn sgwrsio â'i gilydd yn ystod amser byrbryd, a oedd yn achlysur cymdeithasol iawn. Chwaraeodd y plant gyda set drenau a helpu'i gilydd; gwnaethant edrych am 'long pieces of track and short pieces of track'. Ar yn adeg, eglurodd un plentyn bod angen 'a curved piece of track'

er mwyn iddo fynd o dan y bwrdd, gan ychwanegu ‘I will go and look for it’.  Helpodd y plant i dacluso eu teganau, gan gydweithio'n dda â'i gilydd a'r staff. Drwy'r dydd, gwelwyd y plant yn rhannu adnoddau'n hapus ac yn cydweithio yn ystod gweithgareddau grŵp a gemau, yn ogystal â datrys problemau wrth wneud gweithgareddau, er enghraifft wrth chwilio am eitemau heddlu neu aros eu tro i chwarae gyda thegan 'hofrennydd'.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda iawn ac yn ystyriol o'i gilydd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan yn frwd yn eu cyfleoedd chwarae a'u dysgu.

Gwelsom y plant yn ymddiddori mewn amrywiaeth ragorol o weithgareddau diddorol ac ysgogol. Chwaraeodd y plant gyda 'thoes chwarae' a gwneud selsig hir neu fyr. Gwnaethant ddefnyddio cyfrifiadur i greu lluniau ac roeddent yn dechrau dysgu sut i arbed a storio eu gwaith, y gallent ddychwelyd ato i'w ddatblygu ymhellach yn ddiweddarach. Roedd y plant wrth eu bodd â'u gêm 'chwilio am yr eitemau heddlu', lle gwnaethant chwilio am helmedau heddlu, ffeiliau tystiolaeth, llyfrau nodiadau a llawer mwy. Aethant ati i greu trac trên, gan ddatrys problemau a defnyddio geiriau fel 'curved' a 'semi-circle'. Roeddent yn falch iawn o allu adnabod llythrennau yn eu henwau a gwnaethant gyfrif yn frwd mewn gweithgareddau rhifau. Roedd y plant yn llawn cyffro am eu cyfleodd chwarae ac yn cynnal eu lefelau diddordeb.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a'u dysgu'n fawr iawn.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn dysgu ac yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda iawn.

Roedd y plant yn hyderus i symud o gwmpas eu hamgylchedd chwarae ac roeddent yn gallu dewis gweithgareddau. Gwelsom y plant yn defnyddio'r toiledau ac yn golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol, heb i'r staff eu hatgoffa.  Gwnaethant ymuno â'r holl arferion yn frwd.  'Cofrestrodd' y plant eu hunain yn hyderus, a ddangosodd eu bod yn deall y system hunangofrestru.  Gwnaethant ddangos lefelau da o gyfrifoldeb, wrth osod y bwrdd ar gyfer amser byrbryd, arllwys eu llaeth eu hunain a helpu i roi pethau i gadw ar ddiwedd amser byrbryd.  Dewisodd y plant offer a deunyddiau'n hyderus, er enghraifft wrth ddewis pa ddeunyddiau i'w defnyddio i adeiladu trac trenau neu ba gemau i'w chwarae.  Gwisgodd y plant eu cotiau amdanynt heb fawr ddim help gan y staff gan ddangos bod eu sgiliau hunangymorth yn datblygu'n dda.

Mae gan y plant sgiliau hunangymorth datblygedig iawn ac maent yn ehangu eu sgiliau'n hyderus.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn ymrwymedig i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cefnogi'r plant i gyfathrebu'n effeithiol ac ymddwyn yn briodol. Mae'r staff yn ymroddedig iawn ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal a gweithgareddau addysgol â'r nod o hyrwyddo cyfleoedd dysgu a chwarae'r plant.

### Ein canfyddiadau

#### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy ddilyn eu prosesau a'u gweithdrefnau'n gyson.

Roedd y staff yn hyrwyddo arferion iach ac er bod y plant yn cael eu goruchwylio wrth ddefnyddio'r cyfleusterau toiled, nid oedd angen i'r staff atgoffa neu ddweud wrth y plant i olchi eu dwylo. Roedd y staff yn gymwys iawn ac roedd eu hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf pediatrig yn gyfredol. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o'r 'Ddyletswydd Atal' ac wedi cwblhau modiwl e-Ddysgu Llywodraeth Cymru. Wrth drafod â'r staff, gwelwyd eu bod yn deall pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i'r plant fod yn egnïol, a hynny dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth o fyrbrydau iach yn ystod yr wythnos. Er enghraifft, weithiau byddai'r plant yn cael ffrwythau neu resins neu, ar ddiwrnod yr arolygiad, cawsant ddewis o rawnfwydydd iach gyda llaeth. Roedd ymarferion tân rheolaidd wedi'u cynnal ar y cyd â'r ysgol er mwyn helpu'r plant a'r staff i wybod beth i'w wneud mewn argyfwng, ac roedd yr holl wiriadau diogelwch angenrheidiol ar y cyfarpar trydanol wedi'u cynnal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn hybu arferion iach.

#### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'r plant yn arbennig o dda.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn dda ac roeddent yn ymwybodol o unrhyw anghenion unigol neu ychwanegol. Roeddent yn defnyddio lleisiau tawel ac addfwyn ac roedd iaith eu corff yn gadarnhaol. Clywsom y staff yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol, gan egluro pam roeddent yn canmol y plant, er enghraifft ‘well done, that’s right we must share’ wrth iddynt ganmol y plant am gymryd rhan yn y gweithgaredd 'chwilio am offer heddlu'. Eglurodd y staff beth oedd yn digwydd wrth ymgynnull y plant ar gyfer amser cylch a gwelsom fod y plant yn deall yr hyn a oedd yn ofynnol ohonynt, a heb eu drysu gan hyn. Roedd y staff yn

fodelau rôl da ac yn hyrwyddo moesau da a gwelsom fod y staff yn annog y plant i gymryd perchenogaeth o bopeth a wnânt yn y gwasanaeth.

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio mewn modd cadarnhaol ac adeiladol sy'n creu amgylchedd blaengar a chyfoethog ar gyfer y plant.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae gan y staff wybodaeth a dealltwriaeth wych o anghenion unigol y plant y maent yn gofalu amdanynt.

Roedd y staff yn cynllunio gweithgareddau mewn ffordd gydlynol, gan weithio yn ôl thema, er enghraifft, 'Pobl sy'n Ein Helpu Ni', ac yn darparu gweithgareddau a phrofiadau chwarae i gefnogi deilliannau dysgu penodol i'r plant, yn ogystal â gwneud yn siŵr bod y plant yn cael hwyl.  Roedd y staff yn dilyn egwyddorion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac yn darparu profiadau dysgu diddorol ac ysgogol ym mhob maes. Er enghraifft, anogodd y staff y plant i ddysgu i ddefnyddio geiriau newydd a oedd yn gysylltiedig â gweithgaredd y dydd. Er enghraifft, wrth chwarae gem bwrdd paru, gwnaethant annog y plant i ddefnyddio iaith fathemategol, ‘I have a semi-circle’, meddai un plentyn ‘and it is red’. Clywsom y staff yn holi'r plant am y trac trên roeddent yn ei adeiladu, a gwnaethom gyflwyno geiriau newydd fel ‘collision', 'collapse' a 'concentrate’, a'u hegluro. Yn ystod y gweithgaredd 'Chwilio am offer heddlu', gwelsom y staff yn annog y plant i ddod o hyd i wahanol eitemau o gyfarpar y byddai Swyddog yr Heddlu yn eu defnyddio. Er enghraifft, pan ddaeth plentyn o hyd i fag tystiolaeth neu efynnau, eglurodd y staff beth oeddent a sut y byddent yn cael eu defnyddio. Clywsom y staff yn mynd ati'n gadarnhaol i atgyfnerthu cysyniadau fel 'ymwybod â gofod' wrth i'r plant ymestyn eu hunain ar y llawr a defnyddio'r lle i adeiladu trac trenau. Clywsom y staff yn gofyn i'r plant ddatrys y broblem ‘how is the train going to get through there’ a ‘it might get derailed’. Yn ystod amser cylch, ac yn rheolaidd yn ystod yr ymweliad, anogodd y staff y plant i siarad am y ffordd roeddent yn teimlo. Gwelsom fod y staff yn cadw cofnod manwl o gynnydd datblygiadol y plant, gyda chynlluniau dysgu unigol i blant ag anghenion ychwanegol a oedd yn dod i'r amlwg. Nodwyd gennym fod y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gefnogi gwaith cynllunio at y dyfodol. Roedd y staff yn teilwra gweithgareddau i anghenion unigol y plant.

Mae'r staff yn hyrwyddo dysgu a datblygu yn effeithiol drwy amrywiaeth eang o weithgareddau ystyrlon ac ysgogol a oedd wedi'u cynllunio'n dda.

## 3. Yr Amgylchedd

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle yn ddiogel. Mae'r ardaloedd chwarae dan do ac awyr agored yn rhagorol o ran y ffordd maent yn canolbwyntio ar blant, ac maent yn cynnwys ardaloedd diddorol ar gyfer chwarae. Serch hyn, nid oedd modd defnyddio'r ardal awyr agored ar ddiwrnod yr arolygiad oherwydd y tywydd gwael iawn ac roedd yr ardal dan ddŵr. Mae'r amgylchedd wedi'i ddylunio'n bwrpasol am ei fod yn rhan o adran blynyddoedd cynnar yr ysgol. Mae'r ardal chwarae dan do wedi'i threfnu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i'r plant fod yn egnïol, yn chwilfrydig, yn fyfyriol ac yn greadigol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod teganau ac adnoddau o safon uchel ac yn cynnig cyfleoedd i'r plant ymarfer defnyddio eu synhwyrau a dysgu am y byd o'u cwmpas.

**Ein canfyddiadau**

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel yn gyson.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Gwnaethom nodi bod gan yr arweinwyr system mynediad ddiogel i'r safle, na ellid cael mynediad ato ond drwy ddefnyddio cod. Gwelsom fod yr arweinwyr yn sicrhau bod pawb yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Wrth drafod â'r staff, gwelsom eu bod yn deall polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Roedd pob ymwelydd â'r gwasanaeth wedi'i awdurdodi, ac yn llofnodi wrth gyrraedd ac wrth adael. Roedd yr asesiadau risg yn gynhwysfawr, yn cael eu cynnal yn rheolaidd, yn cael eu hadolygu, a gweithredir arnynt er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Gwelsom yr arweinwyr yn gwneud gwaith glanhau arferol, er enghraifft cyn ac ar ôl byrbryd, roedd y byrddau'n cael eu sychu'n briodol. Ar ddiwedd y dydd, roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo i oedolyn hysbys.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel lle caiff risgiau eu hasesu, a lle gwneir newidiadau yn ôl yr angen er mwyn cael gwared ar risgiau posibl, neu eu lleihau.

**3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dan do ac awyr agored yn canolbwyntio ar y plant ac yn cynnig cyfleoedd eang i blant fod yn egnïol, yn chwilfrydig, yn fyfyriol ac yn greadigol.

Roedd arweinwyr wedi sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Roeddent wedi sicrhau bod yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant yn gyfoethog, yn fywiog ac yn ysgogol. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod 'testun yn yr amgylchedd' yn gyson o ran y defnydd o briflythrennau a llythrennau bach a bod llinellau rhif, er enghraifft, yn dangos y rhif gyda'r symbol a'r nifer gywir. Roedd yr arweinwyr wedi creu amgylchedd lle gallai'r plant gael gafael ar eu heiddo eu hunain yn hawdd o'u bachynnau cotiau eu hunain. Roedd yr arweinwyr wedi creu ardaloedd chwarae cyffrous i annog chwarae rôl, dealltwriaeth plant o swyddogaeth a diben sgiliau rhifau, iaith a llythrennedd, cyfleoedd chwarae creadigol a chwarae blêr a llawer mwy. Yn yr un modd, roedd arweinwyr wedi sicrhau bod gemau, offer chwarae a theganau ar gael yn hawdd i'r plant. Y tu allan, roedd yr arweinwyr wedi creu ardal chwarae ddiddorol a chyfeillgar i blant ac wedi rhoi llawer o offer diddorol ynddi, er enghraifft llinellau rhif, byrddau sialc, fframiau dringo, ardaloedd tyfu a lle i ddefnyddio teganau ag olwynion. Fodd bynnag, roedd yr ardal hon dan ddŵr ar ddiwrnod yr arolygiad oherwydd glaw anarferol o drwm. Serch hyn, roedd tystiolaeth ffotograffig i ddangos bod yr ardal hon yn cael ei defnyddio'n rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae dan do yn addas, yn gyfeillgar i blant ac yn eu hysbrydoli.

**3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y teganau, yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da.

Roedd yr arweinwyr yn darparu amrywiaeth ragorol o adnoddau a chyfarpar a oedd yn addas i oedran y plant a oedd yn mynychu'r gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau

bod yr ardal chwarae dan do wedi'i threfnu i annog y plant i fod mor annibynnol â phosibl; roeddent wedi sicrhau bod modd i'r plant gael gafael ar y cyfarpar, yr offer a'r teganau'n hawdd. Gwelsom fod gan yr arweinwyr gydbwysedd da o lyfrau a theganau eraill a oedd yn adlewyrchu amrywiaeth a chydraddoldeb cadarnhaol rhwng y rhywiau.

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau a chyfarpar o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Maent yn gwneud yn siŵr bod pob un o'r staff yn cyflawni eu rolau yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y staff y cymwysterau addas a'u bod yn cael eu goruchwylio’n rheolaidd, a'u cefnogi'n yn eu hymarfer dyddiol. Mae'r partneriaethau â'r rhieni'n gryf a cheir cysylltiadau â gweithwyr gofal plant proffesiynol eraill a'r gymuned leol sy'n eu helpu i ddarparu cymorth a gofal rhagorol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn gyson.

Roedd yr arweinwyr wedi mynegi disgwyliadau uchel ar gyfer y staff ac roeddent yn darparu'r gwasanaeth yn unol â'u datganiad o ddiben. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol. Roedd polisïau effeithiol ar waith, er enghraifft o ran darparu byrbrydau, a gwelsom eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn llawn yn ymarferol. Roedd yr arweinwyr yn gosod esiampl dda, er enghraifft, agwedd ddigynnwrf a chyson a oedd yn creu ethos o barch. Roedd yn glir bod arweinwyr wedi sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ac ymdeimlad o ddiben sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliant a chanlyniadau da i'r plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan yr arweinwyr system effeithiol ar waith i werthuso'r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer gwella.

Roedd gan yr arweinwyr systemau ar waith i nodi'r hyn maent yn ei wneud yn dda a'r meysydd y mae angen eu gwella. Roedd gan yr arweinwyr 'gynllun gwella'r lleoliad' yr oeddent yn ei roi ar waith a oedd yn nodi eu blaenoriaethau'n glir, ac roeddent yn ychwanegu ato'n barhaus. Nodwyd gennym fod yr arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant

cadarnhaol o hunanwerthuso a oedd wedi'i ymsefydlu yn eu hymarfer dyddiol. Roedd ganddynt systemau effeithiol ar waith ar gyfer cael barn y plant, y staff a'r rhieni.

Roedd yr arweinwyr yn agored i syniadau newydd ac yn croesawu'r cysyniad o wella'n barhaus er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y staff gymwysterau addas a'u bod wedi'u cefnogi yn eu hymarfer dyddiol.

Dangosodd yr arweinwyr eu bod yn cefnogi eu staff yn dda. Gwelsom fod yr arweinwyr yn darparu

sesiynau goruchwylio rheolaidd ar gyfer y staff a bod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal. Gwelsom dystiolaeth

fod yr arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn a bod ganddynt y

wybodaeth berthnasol i gyd ar gyfer pob aelod o staff.

Mae'r rheolwyr yn rheoli'r staff yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd hyfforddi rheolaidd.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, gweithwyr proffesiynol eraill ac o fewn y gymuned leol, sy'n sicrhau eu bod yn darparu gofal effeithiol a magwrus i'r plant.

Roedd gan yr arweinwyr bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni ac roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys ar lafar pan oedd y rhieni yn gollwng ac yn casglu eu plentyn, yn ysgrifenedig ac yn electronig. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwedd y dydd yn llawn canmoliaeth am y gofal roedd eu plant yn ei dderbyn. Gwnaethant fynegi amrywiaeth o sylwadau cadarnhaol, fel “the service is excellent at developing speech and confidence’’, dywedodd un arall “ready for school without doubt’, “My child loves it here” a “the staff are wonderful”. Dywedodd yr arweinwyr wrthym am y ffordd maent yn gweithio'n agos gyda'r Unigolyn Cyfrifol, a oedd hefyd yn Bennaeth ar yr ysgol. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â gweithwyr gofal plant proffesiynol eraill a dywedasant eu bod yn rhan o brosiect lleol 'Cyngor Eco-Ysgol’ a bod ganddynt gysylltiadau

rhagorol â'r gymuned leol, er enghraifft y garej, caffi a'r siopau lleol a chymuned y pentref yn gyffredinol.

Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau gweithio effeithiol yn y gymuned leol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion canlynol i'r darparwr:

Ystyried adeiladu ar y gweithgareddau 'datblygu emosiynol' presennol er mwyn canolbwyntio mwy ar ddatblygu deallusrwydd emosiynol a chadernid y plant, ac

Ymgyfarwyddo â chanllawiau Llywodraeth Cymru, Bwyd a Maeth i Ddarparwyr Gofal Plant; a diwygio'ch polisi bwyd os oes angen.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â’r gwasanaeth ar 14 Mawrth 2019, rhwng 8.30am a 12:15pm.

Gwnaethom y canlynol:

- Arolygu sampl o ddogfennau, polisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys gwybodaeth am staff, cofnodion plant, gwaith cynllunio, yr adolygiad o ansawdd y gofal ac asesiadau risg;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd SOFI 2 (Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu) er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltu'r plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, yr Unigolyn Cyfrifol a'r staff;
- siarad â'r rhieni, ac
- arolygu pob ardal a ddefnyddir gan y plant

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Gillian Lloyd** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Margaret Voss** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **12** |
| **Ystod oedran y plant** | **Rhwng 3 a 5 oed** |
| **Oriau agor** | **08:45am. i 11:30am.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **5 Chwefror 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **14 Mawrth 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nac ydy: Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth nac yn bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r gwarchodwr plant ystyried canllawiau strategol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |